Hawdd ei Ddeall

Disability Wales
Anabledd Cymru

Gwybod Eich Hawliau

Eich canllaw i Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan **Anabledd Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Gwybod eich hawliau Defnyddio eich hawliau Byw eich hawliau**'.

Mawrth 2022

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch chi dal angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.

Gallai geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd eu deall. Gallwch chi wirio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 21**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Anabledd Cymru**. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwefan: www.disabilitywales.org/cy

E-bost: info@disabilitywales.org

Ffôn: 02920 887 325

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthon ni beth yw eich barn am y ddogfen hawdd ei deall hon, cliciwch yma.

Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad....4

Ynglŷn â'n gwaith....5

Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus....7

Gwybod eich hawliau....9

Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru....12

Defnyddio eich hawliau....13

Sefydliadau Pobl Anabl a Chyrff Cyhoeddus....13

Gwneud cwyn....14

Mynd i'r Llys....16

Stori bywyd go iawn....18

Rhagor o Wybodaeth....19

Geiriau anodd....21

Cyflwyniad

Ysgrifennwyd y llyfryn hwn gan **Anabledd Cymru**.

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer Pobl Anabl a Sefydliadau Pobl Anabl.

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth am **Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**. Ond nid cyngor cyfreithiol ywe.

Mae cyfanswm o 8 llyfryn. Mae gan bob llyfryn wybodaeth am gyfraith wahanol.

Roedd y llyfryn hwn yn gywir ym mis Ionawr 2021. Ond gallai **Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** newid yn y dyfodol.

Ynglŷn â'n gwaith

Rydym yn gweithio'n galed i ddiogelu **hawliau** Pobl Anabl.

Hawliau yw'r pethau y caniateir i chi eu gwneud. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i briodi a'r hawl i bleidleisio.

Mae **hawliau** yn dweud wrthon ni sut y dylen ni gael ein trin. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i gael eich trin â pharch.

Mae gan bobl eraill **hawliau** hefyd. Er enghraifft, rhaid i chi drin pobl eraill â pharch.

Yn 2020, gofynnwyd i Bobl Anabl yng Nghymru am eu **hawliau**.

Dywedodd llawer o Bobl Anabl wrthon ni nad oedd eu **hawliau** yn cael eu diogelu'n dda yng Nghymru.



Roedd llawer o Bobl Anabl yn teimlo na fyddai hyn yn gwella yn y dyfodol.

Rydyn ni am i Bobl Anabl wybod a defnyddio eu **hawliau**. Ac i deimlo'n ddiogel.

Fe wnaethon ni ysgrifennu'r 8 llyfryn hyn i helpu.

Dyletswyddau cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Mae **Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** yn rhan o **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.

Gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** yn **Gwybod eich Hawliau – Eich canllaw i Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.

Mae **Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** yn rheolau ar gyfer **cyrff cyhoeddus** a sefydliadau eraill. Mae'r rheolau'n cwmpasu unrhyw wasanaethau maen nhw'n eu cynnig i'r cyhoedd.

Mae **cyrff cyhoeddus** yn wasanaethau sy'n cael eu rhedeg i'r cyhoedd. Er enghraifft, y GIG, awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, neu'r gwasanaeth tân.

Rhaid i **gyrff cyhoeddus** feddwl am ffyrdd y gallan nhw wneud bywyd yn decach i bawb.

A dylen nhw ddweud wrth bawb am eu cynlluniau a'u syniadau.

Gwybod eich hawliau

Mae gan **Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 3 nod**. Mae'n dweud bod yn rhaid i **gyrff cyhoeddus**:

- atal **gwahaniaethu, aflonyddu** ac **erledigaeth**.

> **Gwahaniaethu** yw pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.
>
> Mae **aflonyddu** yn ymddygiad sy'n peri gofid i rywun. Fel cael eich bwlio.
>
> Mae **erledigaeth** yn golygu cael eich trin yn wael neu rywun yn pigo arnoch chi.

- gwella **cydraddoldeb**.

> Mae **cydraddoldeb** yn golygu trin pobl yn deg.

- sicrhau bod gwahanol gymunedau'n cyd-dynnu.

Mae angen i **gyrff cyhoeddus** feddwl am y **3 nod** yn yr holl waith maen nhw'n ei wneud. Er enghraifft, os ydynt yn cyflogi Pobl Anabl, dylent ystyried eu hanghenion.

Mae **Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** yn dweud bod anghenion Pobl Anabl yn wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn anabl.

Rhaid i **gyrff cyhoeddus** ystyried anghenion Pobl Anabl. A gwneud **addasiadau rhesymol** ar eu cyfer.

Mae **addasiadau rhesymol** yn newidiadau y gall pobl eu gwneud i helpu Pobl Anabl. Er enghraifft, gosod ramp fel y gall defnyddiwr cadair olwyn fynd i mewn i adeilad.

Rhaid **i gyrff cyhoeddus** hefyd:

- newid pethau sy'n gwneud bywyd yn anodd i Bobl Anabl.

- diwallu anghenion Pobl Anabl.

- helpu Pobl Anabl i gymryd rhan yn eu cymunedau a gweithgareddau.

Dyletswyddau cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru

Mae **Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** yn gryfach yng Nghymru na gweddill y DU.

Rhaid i **gyrff cyhoeddus** yng Nghymru ysgrifennu cynlluniau **cydraddoldeb**.

Mae **cyrff cyhoeddus** yng Nghymru yn cynnwys pobl â **nodweddion gwarchodedig** yn eu cynlluniau. A gofyn iddyn nhw am syniadau.

Mae **nodweddion gwarchodedig** yn bethau am bobl sy'n cael eu gwarchod gan y gyfraith. Fel nam.

Gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am **nodweddion gwarchodedig** yn **Gwybod eich Hawliau - Llyfryn 1**.

Defnyddiwch eich hawliau

Sefydliadau Pobl Anabl a Chyrff Cyhoeddus

Rhaid i **gyrff cyhoeddus** yng Nghymru ysgrifennu **Amcanion Cydraddoldeb**.

Mae **Amcanion Cydraddoldeb** yn bethau maen nhw'n bwriadu eu gwneud i wella **cydraddoldeb**.

Gall **Sefydliadau Pobl Anabl** weithio gyda **chyrff cyhoeddus**. A gwneud yn siŵr eu bod nhw'n ysgrifennu **Amcanion Cydraddoldeb** sy'n bwysig i Bobl Anabl.

Weithiau mae **cyrff cyhoeddus** yn gwneud newidiadau i wasanaethau. Os yw'r newidiadau hyn yn anghyfreithlon, neu'n annheg, gall **Sefydliadau Pobl Anabl** ofyn iddyn nhw roi'r gorau iddi.

Mae **Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** yn dweud bod rhaid i **gyrff cyhoeddus** wrando ar yr hyn sydd gan Sefydliadau Pobl Anabl i'w ddweud.

Gwneud cwyn

Os credwch chi fod **corff cyhoeddus** yn torri'r gyfraith, dylech chi siarad â nhw yn gyntaf.

Defnyddiwch eu gwasanaeth cwynion neu apeliadau. Dywedwch wrthyn nhw beth maen nhw'n ei wneud o'i le.

Os nad ydyn nhw'n gwrando, gallech chi gysylltu ag **Ombwdsmon**.

Mae **Ombwdsmon** yn rhywun a fydd yn eich helpu gyda'ch cwyn.

Yng Nghymru, gallwch chi gysylltu â'r **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus**.

I gwyno am wasanaeth yn y DU, cysylltwch â'r **Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd**.

Yn hytrach nag **Ombwdsmon**, gallech chi gysylltu â'r **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**.

Gwaith y **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** yw eich helpu gyda chwyn.

Bydd y **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** yn gwirio a yw'r corff cyhoeddus yn gwneud rhywbeth o'i le.

Os yw'r **corff cyhoeddus yn** gwneud rhywbeth o'i le, bydd y **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** yn gofyn iddyn nhw roi'r gorau iddi.

Gall y **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** orfodi'r **corff cyhoeddus** i gadw at **Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**.

Mynd i'r Llys

Efallai na fyddwch chi'n siŵr a yw **corff cyhoeddus** wedi torri'r rheolau **Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**. Ond gallwch chi fynd â nhw i'r llys i wirio.

Mae angen i chi ddangos bod yr hyn maen nhw wedi'i wneud yn annheg. A'i fod yn effeithio ar 1 neu fwy o Bobl Anabl.

Yr enw ar y math hwn o achos yw **Adolygiad Barnwrol**. Bydd angen cyfreithiwr da arnoch chi ar gyfer hyn.

Efallai y byddwch chi'n gallu cael **Cymorth Cyfreithiol** i dalu am **Adolygiad Barnwrol**. Ond dim ond os oes gennych chi achos cryf.

Gall mynd i'r llys fod yn ddrud iawn os nad ydych chi'n cael **Cymorth Cyfreithiol**.

Dim ond os ydych chi wedi rhoi cynnig ar bopeth arall yn gyntaf y dylech chi fynd i'r llys.

Stori bywyd go iawn

Grŵp mynediad cymunedol yn erbyn ei awdurdod lleol 2012

Gwnaeth cyngor newidiadau i stryd fawr. Fe wnaeth hyn effeithio ar ddeiliaid Bathodyn Glas.

Beth ddigwyddodd nesaf

Cwynodd grŵp ymgyrchu amdano. Siaradodd yr **Ombwdsmon** â'r cyngor. A rhoddwyd cyfaddawd i'r grŵp.

Nawr, mae Stryd Fawr Bangor ar agor am 4:30pm. Ac mae ar gau am 10:00 am y diwrnod canlynol.

Mae hyn yn rhoi mwy o amser i ddeiliaid Bathodyn Glas ddefnyddio'r Stryd Fawr.

Gallwch chi wylio ffilm amdano yma:

Fersiwn gydag isdeitlau Saesneg:
https://www.youtube.com/watch?v=ilrnvc8yFGQ

Fersiwn gydag isdeitlau Cymraeg:
https://www.youtube.com/watch?v=Gp2Up2_WKfM

Rhagor o Wybodaeth

I gael rhestr lawn o gyrff sy'n cael eu cwmpasu gan **Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**, ewch i:

www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/schedule/19

I gael trosolwg o adroddiad y **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** ar **Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** a sut mae'n gweithio yng Nghymru:

www.equalityhumanrights.com/cy/advice-and-guidance/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-yng-nghymru

Crynodeb o adroddiad y **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** ar **Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** a sut mae'n gweithio yng Nghymru:

www.equalityhumanrights.com/cy/node/545

Rhestr o awdurdodau lleol a'r hyn maen nhw'n ei wneud i gadw at **Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**:

www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/psed_examples_report_english.pdf

Canllaw Hanfodol y **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** ar gyfer Awdurdodau Cyhoeddus yng Nghymru:

www.equalityhumanrights.com/cy/node/691

Cymorth **Cyngor ar Bopeth** am **Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**:

www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/Y-Gyfraith-a-Llysoedd/discrimination/public-sector-equality-duty/what-s-the-public-sector-equality-duty/

Geiriau anodd

Aflonyddu

Mae aflonyddu yn ymddygiad sy'n peri gofid i rywun. Fel cael eich bwlio.

Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn golygu trin pobl yn deg.

Cyrff cyhoeddus

Mae cyrff cyhoeddus yn wasanaethau sy'n cael eu rhedeg i'r cyhoedd. Er enghraifft, y GIG, awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, neu'r gwasanaeth tân.

Erledigaeth

Mae erledigaeth yn golygu cael eich trin yn wael neu rywun yn pigo arnoch chi.

Gwahaniaethu

Gwahaniaethu yw pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

Hawliau

Hawliau yw'r pethau y caniateir i chi eu gwneud. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i briodi a'r hawl i bleidleisio.

Mae hawliau'n dweud wrthon ni sut y dylen ni gael ein trin. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i gael eich trin â pharch.

Mae gan bobl eraill hawliau hefyd. Er enghraifft, rhaid i chi drin pobl eraill â pharch.

Nodweddion gwarchodedig

Mae nodweddion gwarchodedig yn bethau am bobl sy'n cael eu gwarchod gan y gyfraith. Fel anabledd.

Disability Wales
Anabledd Cymru

20 DEGREES

Linda Laurie Associates
Changing the World

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government